Cost of Living Crisis Project



# CHWARAE CYMRU

**yw'r elusen genedlaethol ar gyfer chwarae i blant**

Rydym yn eiriol dros angen a hawl pob plentyn i chwarae trwy:
Godi ymwybyddiaeth
Hyrwyddo arfer da
Darparu cyngor ac arweiniad ar draws pob sector

**Rydym yn rhagweld dyfodol lle y mae chwarae yn cael ei werthfawrogi yng Nghymru am fod yn allweddol i blentyndod iachus a hapus**

Mewn arolygon diweddar, mae plant ledled Cymru wedi cadarnhau'r ffaith hysbys a chydnabyddedig fod chwarae yn bwysig iddyn nhw. Mae sylwadau'r plant yn rhoi wyneb dynol i'r dystiolaeth ddiymwad: fod chwarae yn cefnogi plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach. Mae chwarae yn galluogi plant i ddysgu am y byd o'u cwmpas, gwneud cysylltiadau a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.

Yn yr arolygon hynny, mae ymateb plant yn cadarnhau hefyd nad oes rhaid inni wario arian ar weithgareddau drud na theithio milltiroedd i fynd i le chwarae arbennig – **gall pawb ddarparu cyfleoedd cost-isel i chwarae yn eu cymunedau eu hunain.** O adeiladu cuddfannau i wneud paentiadau potsh, sblashio mewn pyllau neu chwarae mig – mae cymaint o ffyrdd i chwarae.



Yn draddodiadol mae cael digon o gyfleoedd i chwarae bob dydd wedi rhoi ymdeimlad o hwyl i blant, a buddion ychwanegol all fod yn ffactorau gwarchodol rhag ansicrwydd beunyddiol ac effaith negyddol trallod.

Mae gan lawer ohonom atgofion melys o dyfu i fyny mewn cyfnod pan roedd pawb yn derbyn fod plant yn chwarae yn yr awyr agored, yn ac o gwmpas eu cymdogaethau gyda ffrindiau. **Mae'r lleoedd sy'n agos at lle rydym yn byw ac y cawsom ein magu wedi bod yn lleoedd llawn cysylltiadau erioed** – llawn tyllau a chorneli lle y mae'r pethau rhyfeddaf yn digwydd pan mae gan blant ddigon o amser ac yn cael chwarae.

Mae chwarae yn digwydd yn aml heb lawer o gynllunio ond weithiau mae'n dda cael ambell syniad yn barod – mae pawb yn mynd yn brin o syniadau weithiau. Er mwyn helpu rhieni a chymunedau i roi plentyndod hapus, iachus trwy chwarae i blant, bob dydd, mae Chwarae Cymru wedi datblygu gwefan **Plentyndod Chwareus.**

Mae rhieni'n gallu teimlo dan bwysau i ddiddanu eu plant gyda theithiau costus neu bell i ffwrdd... ond 'dydy chwarae a chael hwyl ddim yn gorfod bod yn ddrud. Yn aml mae'r syniadau bob dydd symlaf yn gallu rhoi'r mwynhad mwyaf dibryder i blant a gwneud eu hoe o'r ysgol yn gofiadwy.


## Sut all cynghorau cymuned a thref gymryd rhan?

Ar gyfer cynghorau cymuned a thref, mae yna arweiniadau sut i, cyngor ymarferol ac enghreifftiau ysbrydoledig yn adran Chwarae yn y Gymuned y wefan..

**Darllenwch Ffocws ar Chwarae Chwarae Cymru Adroddiad Cynghorau Cymuned a Thref**




**Gwyliwch gyflwyniad Chwarae Cymru o'n gweminar ddiweddar yma**



# CHWARAE DAN DO


Rydym wedi casglu ein hoff syniadau chwarae cost-isel neu dim cost ar gyfer plant o bob oed a theuluoedd i'w mwynhau

Mae'r tywydd a bywydau prysur weithiau'n golygu fod rhaid i chwarae symud dan do, ond mae digon o syniadau y gall plant eu mwynhau.

- **Gwneud cerddoriaeth** – gall pethau o gwmpas y tŷ fel potiau, sosbenni, tuniau, llwyau pren neu boteli plastig wedi'u llenwi â reis fod yn offer perffaith ar gyfer dechrau band roc.
- **Mae'r llawr yn lafa** – ffordd wych i blant o bob oed gadw'n gorfforol brysur dan do. Casglwch eich clustogau a gobennydd at ei gilydd a gadewch i ddychymyg eich plentyn fynd yn wyllt wrth iddyn nhw hercian, neidio a dringo eu ffordd o gwmpas eich cartref.
- **Trefnu sioe dalent** – creu coreograffi i symudiad dawns i hoff gân, dod yn dafleisydd tedi, gwneud tric hud... mae trefnu sioe dalent yn gallu bod yn ffordd wych o roi hwb i hyder plant a chael hwyl.
- **Defnyddio pethau bob dydd** – mae gan blant ddychymyg mor gyfoethog – gall bocs o bethau bob dydd ddatgloi byd cyfan o chwarae. Gall tiwb papur cegin ddod yn delesgop ar gyfer syllu ar y sêr, gall cynfas gwely ddod yn babell.

Mae gadael i blant chwarae'n rhydd gyda phethau bob dydd yn ffordd wych o feithrin eu creadigrwydd.

Gwyliwch ein fideo Chwarae ar y Nesaf Peth i Ddim i gael mwy o ysbrydoliaeth.





## Weithiau y syniadau symlaf yw'r rhai mwyaf difyr?

## CHWARAE AWYR AGORED RHESYMOL EI BRIS

Os ydych yn byw yn agos at barc, arfordir neu mewn amgylchedd trefol, mae yna syniadau awyr agored sy'n addas i bawb...

- **Helfeydd chwilota** – o gasglu dal a brigau mewn coedwig, adnabod adar, neu gyfrif ceir lliwiau gwahanol yn eich ardal leol – gall mynd am dro gyda'r teulu droi yn her a bod yn ffordd wych o annog plant i dreulio amser yn yr awyr agored.
- **Chwarae dŵr** – brwydrau dŵr, llithren llithro, rhedeg trwy chwistrellwyr, paentio gyda brwshys/sbyngau gwlyb, gwneud persawr ac eli, chwarae cegin awyr agored a hyd yn oed golchi'r car... mae plant yn cael eu denu at weithgareddau dŵr sydd hefyd yn wych ar gyfer oeri rhyw ychydig ar ddiwrnod poeth o haf.
- **Mini Olympiad** – mae gwneud cyrsiau rhwystrau a chael rasus gyda ffrindiau yn ffordd wych o gymdeithasu a bod yn weithgar. Gallwch ddefnyddio offer chwarae fel cylchoedd hula a rhaffau sgipio, neu bethau bob dydd fel blychau cardfwrdd, brwshys neu gadeiriau.
- **Adeiladu cuddfan** – gall pethau bob dydd fel hen blancedi, cadeiriau a rheiliau dillad wneud lle cuddio perffaith ar gyfer chwarae. Mae archfarchnadoedd a siopau offer tŷ hefyd yn lleoedd da i gasglu nwyddau am ddim, megis blychau cardfwrdd y gall plant eu defnyddio i ehangu at eu hadeilad cudd.



Mae plant ac arddegwyr angen, ac mae ganddynt yr hawl i gael, llecynnau o safon uchel ac amser i chwarae fel rhan o'u bywydau beunyddiol yn eu cymunedau.
Mae cynghorau cymuned a thref yng Nghymru mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn eiriolwyr dros chwarae ar gyfer y cymunedau y maen nhw'n byw ynddynt ac yn eu gwasanaethu.

Mae llwyth o becynnau gwaith a gwybodaeth defnyddiol ar gael yma.




**Dewch yn aelod o Chwarae Cymru am DDIM**

Eisiau Gwybod Mwy?
Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm: colc@onevoicewales.wales